This document is also available in English

**CYNNWYS**

**ADRAN 4**

**4.** **Cyngor Llawn**


4.1 Cyflwyniad
4.2 Y Fframwaith Polisi
4.3 Cynllun Lles Lleol Conwy a Sir Ddinbych
4.4 Y Gyllideb
4.5 Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai
4.6 Swyddogaethau'r Cyngor Llawn
4.7 Aelodaeth
4.8 Cyfarfod y Cyngor
4.9 Rheolau Gweithdrefnau a Thrafodaethau
4.10 Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor – Cyfarfod Blynyddol y Cyngor
4.11 Cyfarfodydd Cyffredin
4.12 Cyfarfodydd Arbennig
4.13 Amser, Lleoliad a Hyd Cyfarfodydd
4.14 Hysbysiad a Gwŷs Cyfarfodydd
4.15 Cadeirydd Cyfarfod
4.16 Cworwm
4.17 Mynychu o Bell
4.18 Cwestiynau gan Aelodau
4.19 Rhybudd o Gynnig
4.20 Cynigion heb Rybudd
4.21 Rheolau Trafodaeth
4.22 Penderfyniadau Blaenorol a Chynigion
4.23 Pleidleisio
4.24 Cofnodion
4.25 Cofnod o Bresenoldeb
4.26 Gwahardd y Cyhoedd
4.27 Ymddygiad Aelodau
4.28 Aflonyddwch gan y Cyhoedd
4.29 Recordiad Sain/Fideo neu Ddarllediad / Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol
4.30 Darllediad Electronig Cyfarfodydd
4.31 Atal a Diwygio Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor
4.32 Cais i Bwyllgorau ac Is-Bwyllgorau
4.33 Disodli Aelodau Pwyllgorau
4.34 Y Gymraeg
4.35 Materion Brys

## ADRAN 4 - CYNGOR LLAWN

### 4.1 Cyflwyniad

Mae'r Cyngor Llawn yn gyfarfod ffurfiol o'r holl Gynghorwyr. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn wneud penderfyniadau pwysig penodol gan gynnwys pennu cyllideb y Cyngor a Threth y Cyngor a chymeradwyo nifer o gynlluniau a strategaethau allweddol, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r Fframwaith Polisi (a restrir isod). Mae'n gyfrifol am bob un o'r swyddogaethau nad yw'n gyfrifoldeb y Cabinet. Bydd yn ymgymryd â rhai swyddogaethau ei hun, ond bydd eraill yn cael eu dirprwyo i Bwyllgorau neu Swyddogion penodol.

### 4.2 Y Fframwaith Polisi

Mae'r Fframwaith Polisi yn golygu'r cynlluniau a'r strategaethau canlynol:

Cynllun Rhianta Corfforaethol, Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych, Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel, Strategaeth Iechyd a Lles, Cynlluniau Cludiant Lleol, Cynllun Datblygu Lleol, Cynllun Iaith Gymraeg, Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid, Cynllun Corfforaethol, Strategaeth Tai Lleol, Strategaeth Comisiynu Lleoliadau, Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a'r Polisi Datganiad Trwyddedu.

### 4.3 Cynllun Lles Lleol Conwy a Sir Ddinbych

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ceisio gwneud Conwy a Sir Ddinbych yn lleoedd mwy cyfartal gyda llai o amddifadedd.

### 4.4 Y Gyllideb

Mae'r gyllideb yn cynnwys dyrannu adnoddau ariannol i wahanol wasanaethau a phrosiectau, cronfeydd wrth gefn arfaethedig, y sylfaen treth y cyngor, gosod treth y cyngor a phenderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli gofynion benthyca'r Cyngor, rheoli ei wariant cyfalaf a gosod terfynau trosglwyddo arian. Bydd y Cyngor yn penderfynu ar y gyllideb refeniw gyffredinol a'r gyllideb gyfalaf gyffredinol, ac unrhyw newid i'r rhain (gwelwch Adran 16 i weld sut gall y Cyngor newid y Fframwaith Polisi neu'r gyllideb a gyflwynir iddo eu cymeradwyo gan y Cabinet).

### 4.5 Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai

Mae Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai yn golygu cymeradwyo neu fabwysiadu ceisiadau (boed hynny mewn ffurf drafft ai peidio) i Lywodraeth Cymru i gymeradwyo rhaglen o waredu tir a ddefnyddir i bwrpasau preswyl lle bo angen cymeradwyaeth dan adrannau 32 neu 43 Ddeddf Tai 1985

### 4.6 Swyddogaethau'r Cyngor Llawn

Dim ond y Cyngor Llawn fydd yn arfer y swyddogaethau canlynol:

2.6.1 Mabwysiadu a newid y Cyfansoddiad (ar wahân i'r newidiadau sy'n cael eu dirprwyo i'r Swyddog Monitro dan baragraff 2.6);

2.6.2 Cymeradwyo neu fabwysiadu'r Fframwaith Polisi, y gyllideb ac unrhyw gais i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Throsglwyddo Tir ar gyfer Tai;

2.6.3 Yn amodol ar y weithdrefn frys a geir yn Rheolau'r Weithdrefn Hawl i Wybodaeth yn Adran 15 y Cyfansoddiad hwn, gwneud penderfyniadau am unrhyw fater wrth gyflawni swyddogaeth y Cabinet a gwmpesir gan y Fframwaith Polisi neu'r gyllideb lle mae'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad o blaid gwneud hynny mewn dull a fyddai'n groes i'r Fframwaith Polisi neu yn groes i'r gyllideb/heb fod yn gwbl unol â'r gyllideb;

2.6.4 Penodi a diswyddo'r Arweinydd;

2.6.5 Cytuno ar/diwygio cylch gorchwyl Pwyllgorau, penderfynu ar eu cyfansoddiad a phenodi iddynt (yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989) oni bai bod y penodiadau wedi'u dirprwyo gan y Cyngor;

2.6.6 Ymgymryd â swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fel y nodir yn Adran 11 y Cyfansoddiad hwn, yn cynnwys gwneud cais Cyd-bwyllgor Corfforedig a rhoi caniatâd i wneud rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig;

2.6.7 Rhoi rhyddid/cyflwyno teitl Henadur Anrhydeddus y Fwrdeistref Sirol;

2.6.8 Penodi neu gadarnhau penodiad y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddogion eraill;

2.6.9 Gwneud, diwygio, diddymu, ailddeddfu neu fabwysiadu is-ddeddfau a hyrwyddo neu wrthod deddfwriaeth leol neu Fesurau Personol a gynigir;

2.6.10 Yr holl Swyddogaethau Dewis Lleol sydd wedi'u nodi yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn y mae'r Cyngor yn penderfynu eu harfer ei hun yn hytrach na'u rhoi i'r Cabinet;

2.6.11 Yr holl faterion eraill y mae'n rhaid eu neilltuo i'r Cyngor yn ôl y gyfraith. Er enghraifft, penodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, cymeradwyo penodiad neu ddiswyddiad y Prif Weithredwr, penderfynu ar lefel (ac unrhyw newid yn y lefel) cydnabyddiaeth ariannol Prif Swyddogion a chymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl;

2.6.12 Penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol, oni bai bod y penodiad wedi'i ddirprwyo gan y Cyngor;

2.6.13 Cymeradwyo, adolygu a diwygio Cynllun Deisebu'r Cyngor;

2.6.14 Ymgynghori â phobl leol, unigolion eraill sy'n ymgymryd â busnes yn ardal y Cyngor, swyddogion y Cyngor a phob undeb llafur a gydnabyddir gan y Cyngor ynghylch i ba raddau mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion o ran ei berfformiad;

2.6.15 Paratoi adroddiad blynyddol ar i ba raddau mae'r Cyngor wedi bodloni ei ofynion o ran perfformiad;

2.6.16 Adolygu, cymeradwyo a diwygio amcanion lles y Cyngor yn unol ag Adran 9 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r

canllawiau statudol ategol sydd wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru;

2.6.17 Ystyried adroddiadau'r Prif Weithredwr sydd wedi'u paratoi yn unol ag Adran 54(2)(b) Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, o fewn 3 mis i'w llunio;

2.6.18 Ystyried adroddiadau blynyddol a dderbynnir gan y Pwyllgor Safonau o fewn 3 mis i'w llunio; a

2.6.19 Adolygu i ba raddau y mae'n:

(a) arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;

(b) defnyddio'i adnoddau yn economaidd, yn effeithiol ac yn effeithlon;

(c) ac i ba raddau mae'r trefniadau llywodraethu yn effeithiol i sicrhau'r materion a amlinellir ym mharagraffau (a) a (b) uchod.

2.6.20 Mabwysiadu Cynllun Lwfansau Aelodau;

2.6.21 Derbyn ac ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gyhoeddir dan Adran 16 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a phenderfynu ar ba gamau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodir mewn adroddiadau o'r fath;

2.6.22 Yr holl faterion y mae'n rhaid eu neilltuo i'r Cyngor yn ôl y gyfraith;

2.6.23 Llunio cynllun, trefniant neu strategaeth ar gyfer rheoli benthyciadau'r Awdurdod neu ei wariant cyfalaf;

2.6.24 Newid enw'r Cyngor.

## 4.7 <u>Aelodaeth</u>

2.7.1 Bydd pob Aelod o'r Cyngor yn Aelodau o'r Cyngor Llawn.

2.7.2 <u>Cadeirio'r Cyngor</u>

(a) Mae'r Cynghorydd a gaiff ei ethol yn flynyddol gan y Cyngor fel ei gadeirydd yn cael ei alw'n "Cadeirydd" a gellir ei ethol am ail gyfnod yn y swydd neu ar gyfer y cyfnod dilynol.

(b) Bydd y Cadeirydd yn peidio â bod yn Gadeirydd os yw'n ymddiswyddo, yn cael ei ddiswyddo drwy bleidlais y Cyngor Llawn, yn peidio â bod yn Aelod o'r Cyngor neu'n methu gweithredu fel Aelod o'r Cyngor. Bydd yn parhau i fod yn Gadeirydd ar ôl etholiad, hyd nes bydd olynydd wedi'i benodi.

2.7.3 <u>Rôl a Swyddogaeth y Cadeirydd</u>

Bydd gan Gadeirydd y Cyngor ac, yn ei absenoldeb, Is-Gadeirydd y Cyngor, y rolau a'r swyddogaethau canlynol:

(a) (a) <u>Rôl Seremonïol</u>

Mae Cadeirydd y Cyngor yn:

a) Arweinydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;

b) Hyrwyddo buddion ac enw da'r Cyngor a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ei gyfanrwydd ac yn gweithredu fel llysgennad ar gyfer y ddau;

c) Ymgymryd â gweithgareddau dinesig, cymunedol a seremonïol ac yn meithrin hunaniaeth a balchder cymunedol.

(b) <u>Cyfrifoldebau'r Cadeirydd</u>

a) Cynnal a hyrwyddo dibenion y Cyfansoddiad, a dehongli'r Cyfansoddiad pan fo angen;

b) Llywyddu cyfarfodydd y Cyngor er mwyn cyflawni ei fusnes yn deg ac effeithlon, gan roi ystyriaeth i hawliau Cynghorwyr a buddiannau'r gymuned;

c) Sicrhau bod cyfarfod y Cyngor yn fforwm i drafod materion sy'n peri pryder i'r gymuned leol ac yn lle y gall Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Cabinet ddwyn y Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau i gyfrif;

d) Hyrwyddo cyfranogiad cyhoeddus yng ngweithgareddau'r Cyngor;

e) Bod y gydwybod i'r Cyngor;

f) Mynd i ddigwyddiadau dinesig a seremonïol fel y bo'n briodol ganddo/ganddi / gan y Cyngor.

**4.8 <u>Cyfarfod y Cyngor</u>**

Mae tri math o gyfarfod y Cyngor:

2.8.1 y cyfarfod blynyddol;

2.8.2 cyfarfodydd cyffredin;

2.8.3 cyfarfodydd arbennig.

**4.9 <u>Rheolau Gweithdrefnau a Thrafodaethau</u>**

Mae Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor a nodir yn yr adrannau isod yn berthnasol i gyfarfodydd y Cyngor Llawn.

**4.10 <u>Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor – Cyfarfod Blynyddol y Cyngor</u>**

2.10.1 <u>Amseru a Busnes</u>

Mewn blwyddyn gydag etholiad cyffredinol o Gynghorwyr, bydd y cyfarfod blynyddol yn cael ei gynnal o fewn 21 diwrnod i ymddeoliad y Cynghorwyr sy'n gadael. Mewn blwyddyn arall, bydd y cyfarfod blynyddol yn cael ei gynnal ym mis Mawrth, Ebrill neu fis Mai. Bydd y cyfarfod blynyddol yn:

(a) Ethol unigolyn i lywyddu os nad yw'r Cadeirydd na'r Is-Gadeirydd yn bresennol;

(b) Ethol Cadeirydd y Cyngor;

(c) Ethol Is-Gadeirydd y Cyngor;

(d) Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod diwethaf;

(e) Derbyn unrhyw gyhoeddiad gan y Cadeirydd a/neu'r Prif Weithredwr;

(f) Ethol Arweinydd y Cyngor, ac eithrio os yw'r Arweinydd wedi'i ethol am gyfnod o bum mlynedd yn ystod cyfarfod blynyddol cyntaf y Cyngor;

(g) Bydd yr Arweinydd yn rhoi gwybod i'r Cyngor sawl Aelod sydd i'w penodi i'r Cabinet;

(h) Penodi i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, Pwyllgor Safonau a phwyllgorau ac is-bwyllgorau eraill fel y bo'n briodol gan y Cyngor i ddelio gyda materion nad ydynt yn cael eu neilltuo i'r Cyngor nac yn swyddogaethau Cabinet (fel y nodir yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn);

(i) Derbyn y Cynllun Dirprwyo gan yr Arweinydd, er gwybodaeth yn unig (fel y nodir yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn);

(j) Cymeradwyo rhaglen o gyfarfodydd cyffredin y Cyngor ar gyfer y flwyddyn; ac

(k) Ystyried unrhyw fusnes a nodir yn yr hysbysiad o'r cyfarfod.

2.10.2 <u>Dewis Cynghorwyr i fod ar Bwyllgorau a Chyrff Allanol</u>

Yn ystod y cyfarfod blynyddol, bydd y Cyngor yn:

(a) Penderfynu ar ba bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer blwyddyn y Cyngor;

(b) Penderfynu ar faint a chylch gorchwyl y pwyllgorau hynny;

(c) Penderfynu ar y dyraniad seddau i grwpiau gwleidyddol, yn unol â'r rheolau o ran cydbwysedd gwleidyddol;

(d) Penodi Cynghorwyr i gyrff allanol, ac eithrio pan fo'r penodiadau hynny yn cael eu dirprwyo gan y Cyngor neu'n rhan o swyddogaeth y Cabinet;

(e) Penodi aelodau i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor;

(f) Penodi aelodau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;

(g) Penodi tri aelod i'r Pwyllgor Safonau (o dri grŵp gwleidyddol <u>gwahanol).</u>

## 4.11 <u>Cyfarfodydd Cyffredin</u>

Bydd cyfarfodydd cyffredin y Cyngor yn cael eu cynnal yn unol â'r rhaglen a benderfynir arni yn ystod y cyfarfod blynyddol. Bydd trefn busnes cyfarfodydd cyffredin fel a ganlyn:

2.11.1 Ethol unigolyn i lywyddu os nad yw'r Cadeirydd na'r Is-Gadeirydd yn bresennol;

2.11.2 Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf;

2.11.3 Derbyn datganiadau o gysylltiad gan Aelodau;

2.11.4 Derbyn cyhoeddiadau gan y Cadeirydd, yr Arweinydd, Aelodau'r Cabinet a'r Prif Weithredwr;

2.11.5 Derbyn adroddiad gan yr Arweinydd a derbyn cwestiynau ac atebion ar yr adroddiad;

2.11.6 Derbyn adroddiad gan y Cabinet a derbyn cwestiynau ac atebion ar yr adroddiad;

2.11.7 Derbyn adroddiadau gan bwyllgorau'r Cyngor a derbyn cwestiynau ac atebion ar yr adroddiadau hynny;

2.11.8 Derbyn adroddiadau a chwestiynau ac atebion ar drefniadau ar fusnes trefniadau ar y cyd a sefydliadau allanol;

4.11.9 Ystyried unrhyw fusnes arall a nodwyd yn yr hysbysiad o gyfarfod, yn cynnwys ystyried cynigion gan y Cabinet mewn perthynas â chyllideb a Fframwaith Polisi'r Cyngor, ac adroddiadau gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu;

4.11.10 Ystyried cynigion:

2.11.11 Delio gyda chwestiynau gan Aelodau yn unol â Rheol 4.18;

4.11.12 Derbyn cofnodion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd..

## 4.12 Cyfarfodydd Arbennig

2.12.1 Galw Cyfarfodydd Arbennig

Gall Swyddog Priodol alw cyfarfodydd ychwanegol i'r cyfarfodydd cyffredin. Gall y rheiny a restrir isod ofyn i'r Swyddog Priodol alw cyfarfodydd ychwanegol o'r Cyngor:

(a) Y Cyngor drwy benderfyniad;

(b) Cadeirydd y Cyngor;

(c) Y Cabinet drwy benderfyniad;

(d) Y Prif Weithredwr;

(e) Unrhyw 5 Aelod o'r Cyngor os ydynt wedi llofnodi ffurflen a gyflwynwyd i Gadeirydd y Cyngor sydd wedi gwrthod galw cyfarfod neu wedi methu galw cyfarfod o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y ffurflen honno.

2.12.2 Busnes

Bydd busnes cyfarfod arbennig yn cael ei gyfyngu i'r eitem a nodir ar y cais am gyfarfod arbennig ac ni fydd cofnodion cyfarfodydd blaenorol nac adroddiadau pwyllgor yn cael eu hystyried, ac eithrio os yw'r Cadeirydd, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, yn caniatáu eitemau busnes eraill er mwyn cynnal busnes y Cyngor yn effeithlon.

## 4.13 <u>Amser, Lleoliad a Hyd Cyfarfodydd</u>

2.12.3 <u>Amser a Lleoliad Cyfarfodydd</u>

(a) Y Prif Weithredwr fydd yn penderfynu ar amser a lleoliad cyfarfodydd, a bydd yn rhoi hysbysiad o hynny yn y wŷs.

(b) Os yw cyfarfod yn cael ei gynnal yn unol â threfniadau cyfarfodydd aml-leoliad y Cyngor, bydd y wŷs hefyd yn cynnwys manylion mynychu o bell.

## 4.14 <u>Hysbysiad a Gwŷs Cyfarfodydd</u>

Bydd y Prif Weithredwr yn hysbysu'r cyhoedd am amser a lleoliad unrhyw gyfarfod yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Hawl i Wybodaeth yn Adran 15. O leiaf tridiau cyn cyfarfod bydd y Prif Weithredwr yn anfon gwŷs wedi'i llofnodi ganddo/ganddi at bob Aelod o'r Cyngor. Bydd y wŷs yn nodi dyddiad, amser a lleoliad pob cyfarfod ac, os yw cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â threfniadau cyfarfodydd aml-leoliad y Cyngor, bydd yr hysbysiad yn cynnwys manylion ymuno o bell. Bydd y wŷs hefyd yn nodi'r busnes a fydd yn cael ei drafod, ac yn cynnwys yr adroddiadau sydd ar gael.

## 4.15 <u>Cadeirydd Cyfarfod</u>

2.15.1 Gall y sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod ddefnyddio grym neu ddyletswydd y Cadeirydd. Lle mae'r rheolau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd pwyllgor ac is-bwyllgorau, dylid darllen unrhyw gyfeiriad at y Cadeirydd fel cyfeiriad at gadeirydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

2.15.2 Yn ystod cyfarfod o'r Cyngor, bydd y Cadeirydd, os yw'n bresennol, yn llywyddu.

2.15.3 Os yw'r Cadeirydd yn absennol, yna bydd yr Is-Gadeirydd, os yw'n bresennol, yn llywyddu. Os yw'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn absennol, yna bydd Aelod arall o'r Cyngor yn cael ei ddewis gan yr Aelodau i lywyddu'r cyfarfod.

2.15.4 Os oes angen dewis Aelod o'r Cyngor i lywyddu yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, bydd y Swyddog Priodol yn galw ar Aelod o'r Cyngor i gynnig bod Aelod o'r Cyngor yn cael ei enwi i gadeirio'r cyfarfod.

2.15.5 Os ceir trafodaeth yn dilyn y cynnig hwnnw, bydd y Swyddog Priodol yn cadw trefn.

2.15.6 Bydd y cynnig, ac unrhyw ddiwygiad, yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod yn unol â Rheol 4.23.7 (pleidleisio dros benodiadau).

## 4.16 <u>Cworwm</u>

Bydd cyfarfod gydag o leiaf un chwarter o gyfanswm yr Aelodau yn bresennol yn gworwm. Os yw'r Cadeirydd, yn ystod unrhyw gyfarfod o'r Cyngor, ar ôl cyfrif nifer yr Aelodau sy'n bresennol, yn datgan nad oes cworwm, bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio ar unwaith. Bydd gweddill y busnes yn cael ei ystyried ar amser a dyddiad a bennir gan y Cadeirydd. Os

na fydd yn pennu dyddiad, bydd gweddill y busnes yn cael ei ystyried yn y cyfarfod cyffredin nesaf.

## 4.17 Mynychu o Bell

2.17.1 Bydd Aelodau yn cael eu hystyried yn bresennol mewn cyfarfod os ydynt yn mynychu'r cyfarfod hwnnw o bell yn unol â threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad, ar yr amod eu bod yn gallu siarad, clywed a chael eu clywed gan eraill sy'n bresennol yn y cyfarfod.

2.17.2 At ddibenion Adran 4.17.1, mae presenoldeb "drwy ddulliau o bell" yn golygu presenoldeb mewn lleoliad gwahanol i eraill ysydd yn y cyfarfod a chymryd rhan drwy lwyfan ar-lein.

## 4.18 Cwestiynau gan Aelodau

2.18.1 Ar Adroddiadau'r Cabinet neu Bwyllgorau

Yn ôl disgresiwn y Cadeirydd, gall Aelod o'r Cyngor ofyn unrhyw gwestiwn i'r Arweinydd neu Gadeirydd Pwyllgor heb rybudd sy'n deillio'n uniongyrchol o eitem yn adroddiad y Cabinet neu Bwyllgor, pan fydd yr eitem honno'n cael ei derbyn neu'n cael ei hystyried gan y Cyngor.

2.18.2 Cwestiynau ar Hysbysiad mewn Cyngor Llawn

Yn amodol ar Reol 4.18.4, gall Aelod o'r Cyngor ofyn cwestiwn i'r:

(a) Cadeirydd;

(b) Aelod o'r Cabinet;

(c) Cadeirydd unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor;

ynglŷn ag unrhyw fater y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd neu sy'n effeithio ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

2.18.3 Cwestiynau ar Hysbysiad mewn Pwyllgorau ac Is-Bwyllgorau

Yn amodol ar Reol 4.18.4, gall Aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor ofyn cwestiwn i'w gadeirydd ar unrhyw fater lle mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswyddau neu sy'n effeithio ar y Cyngor ac sy'n dod o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

2.18.4 Rhybudd o Gwestiynau

Gall Aelod ofyn cwestiwn dan Reol 4.18.2 neu 4.18.3 os:

(a) ydynt wedi rhoi o leiaf 5 diwrnod gwaith o rybudd ysgrifenedig; neu

(b) os yw’r cwestiwn yn ymwneud â mater brys, os ydynt wedi cael caniatâd y Cadeirydd neu’r Aelod y cyflwynir y cwestiwn iddo a bod cynnwys y cwestiwn yn cael ei anfon at y Swyddog Monitro cyn 9.30 am ar ddiwrnod y cyfarfod.

2.18.5 Y nifer mwyaf o gwestiynau a ganiateir

Gall Aelod ofyn un cwestiwn yn unig dan Reol 4.18.2 neu 4.18.3 ac eithrio gyda chaniatâd Cadeirydd y Cyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor.

2.18.6 Trefn Cwestiynau

Bydd cynigion y rhoddwyd rhybudd amdanynt yn cael eu rhestru ar y rhaglen yn nhrefn eu derbyn, oni bai bod Aelod sydd wedi cyflwyno cwestiwn yn nodi, yn ysgrifenedig, eu bod yn dymuno symud y cwestiwn i gyfarfod arall neu ei dynnu’n ôl.

2.18.7 Ymatebion

Bydd pob cwestiwn yn cael ei roi a'i ateb heb drafodaeth, ond gall yr unigolyn a ofynnir y cwestiwn iddynt wrthod ateb.

Gall ateb fod ar ffurf:

(a) Ateb uniongyrchol ar lafar yn y cyfarfod;

(b) Lle mae’r wybodaeth a ddymunir mewn cyhoeddiad gan y Cyngor neu waith arall a gyhoeddwyd, cyfeiriad at y cyhoeddiad hwnnw; neu

(c) Lle na ellir rhoi’r ymateb yn gyfleus ar lafar, ateb ysgrifenedig i’w anfon o fewn deng niwrnod gwaith at y sawl a ofynnodd y cwestiwn.

2.18.8 Cwestiwn Atodol

Gall Aelod sy’n gofyn cwestiwn dan Reol 4.18.2 neu 4.18.3 ofyn un cwestiwn atodol heb rybudd ymlaen llaw i’r Aelod y gofynnwyd y cwestiwn cyntaf iddo. Mae’n rhaid i gwestiwn atodol godi’n uniongyrchol o’r cwestiwn gwreiddiol neu’r ymateb.

2.18.9 Hyd Areithiau

Ni chaiff Aelod sy’n gofyn cwestiwn dan Reol 4.18.2 neu 4.18.3 ac Aelod sy’n ateb cwestiwn o’r fath siarad am fwy na phum munud oni bai bod y Cadeirydd yn rhoi caniatâd iddynt siarad am gyfnod hirach.

4.18.10 Amser a Ganiateir ar gyfer Cwestiynau yng Nghyfarfodydd y Cyngor

(a) Ni fydd yr amser a ganiateir i ystyried cwestiynau a gyflwynwyd dan Reol 4.18.2 yn fwy na chwarter awr heb ganiatâd y Cyngor.

(b) Ar ddiwedd yr ateb i’r cwestiwn dan sylw ar ddiwedd y chwarter awr a ganiateir (neu gyfnod hirach a ganiatawyd gan y Cyngor) o’r amser mae’r sawl a ofynnodd y cwestiwn

cyntaf yn dechrau siarad bydd y Cadeirydd yn symud ymlaen i'r eitem fusnes nesaf.

(c) Ymatebir i unrhyw gwestiwn sy'n weddill yn ysgrifenedig cyn cyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

## 4.19 Rhybudd o Gynnig

2.19.1 Rhybudd

Ac eithrio cynigion a ellir eu gwneud heb rybudd dan Reol 4.20 ac mewn achosion o argyfwng, mae'n rhaid cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o bob cynnig i'r Swyddog Monitro dim hwyrach na 17:00 ar y 10fed diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Cyngor y bydd yn cael ei ystyried. Bydd cynigion a dderbynnir yn cael eu cadw ar ffurf sy'n hygyrch i'r cyhoedd eu harchwilio.

2.19.2 Cynnig wedi'i gynnwys ar y Rhaglen

Bydd cynigion y rhoddwyd rhybudd amdanynt yn cael eu rhestru ar y rhaglen yn nhrefn eu derbyn, oni bai bod Aelod sydd wedi cyflwyno cwestiwn yn nodi, yn ysgrifenedig, eu bod yn dymuno symud y cwestiwn i gyfarfod arall neu ei dynnu'n ôl.

2.19.3 Cynigion heb eu gwneud:

Os na chaiff cynnig a nodir mewn gwŷs, ei wneud gan yr Aelod a roddodd rybudd ohono neu gan Aelod arall ar ran yr Aelod cyntaf, bydd y cynnig yn cael ei drin fel cynnig wedi'i dynnu'n ôl ac ni fydd yn cael ei wneud eto heb rybudd newydd, oni bai y caiff ei ohirio trwy gydsyniad y Cyngor.

4.19. 4 Atgyfeiriad awtomatig at y Cabinet neu Bwyllgor arall

Os yw testun unrhyw gynnig y rhoddwyd rhybudd priodol ohono yn rhan o gylch gorchwyl y Cabinet neu bwyllgor arall, bydd y cynnig, ar ôl cael ei gynnig a'i eilio, yn cael ei atgyfeirio heb drafodaeth at y Cabinet neu unrhyw bwyllgor arall yn ôl penderfyniad y Cyngor, er mwyn iddynt hwy ei ystyried a gwneud penderfyniad yn ei gylch. Ar yr amod bod y Cadeirydd, os yw'n ystyried ei bod yn gyfleus ac yn ffafriol i atgyfeirio'r busnes, yn caniatáu i'r cynnig gael sylw yn y cyfarfod y caiff ei ddwyn ger ei fron.

4.19.5 Cwmpas

Mae'n rhaid i gynigion ymwneud â materion y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt neu sy'n effeithio ar les maes gweinyddol y Cyngor.

4.19.6 Cynnig i Gael Gwared ar yr Arweinydd

(a) Ni ellir gwneud cynnig i gael gwared ar yr Arweinydd oni bai bod y rhybudd o gynnig wedi'i lofnodi gan nifer o Gynghorwyr, sef o leiaf 20% o gyfanswm y Cynghorwyr ar y Cyngor ac sy'n cynnwys Cynghorwyr o o leiaf dau grŵp gwleidyddol. Gweler Adran 6.3.2.

(b) Er mwyn gwneud cynnig o'r fath mae'n rhaid iddo gael cefnogaeth o leiaf dau draean o'r Aelodau hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn yr ystafell ar adeg cyflwyno'r cwestiwn.

(c) Ni ellir gwneud cynnig i gael gwared ar yr Arweinydd mwy nag unwaith yn ystod cyfnod o 12 mis treigl.

4.19.7 Amser a Ganiateir ar gyfer Cynigion

Ni fydd yr amser a ganiateir i ystyried cynigion a gyflwynwyd dan y Rheol hon yn fwy na 5 munud heb ganiatâd y Cyngor. Ar ddiwedd yr araith a gyflwynwyd a'r ddiwedd y 5 munud a ganiateir (neu gyfnod hirach a ganiatawyd gan y Cyngor) o ddechrau ystyried y cynnig cyntaf gan y Cyngor, bydd y Cadeirydd yn cynnig pleidlais, heb drafodaeth bellach, ar yr holl gwestiynau angenrheidiol i benderfynu ar y cynnig sy'n cael ei drafod ar yr amod:

(a) Os yw'r araith yn araith sy'n gwneud cynnig, bod y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynnig gael ei eilio'n ffurfiol (heb sylwadau);

(b) Os yw'r araith yn araith sy'n cynnig newid, bod y Cadeirydd yn caniatáu i'r newid gael ei eilio'n ffurfiol (heb sylw) ac yn rhoi cyfle i'r cynigydd gwreiddiol arfer ei hawl i ymateb;

(c) Fel arall, bydd y Cadeirydd yn rhoi cyfle i'r sawl sy'n cynnig arfer ei hawl i ymateb.

## 4.20 Cynigion heb Rybudd

Gellir gwneud y cynigion canlynol heb rybudd:

2.20.1 Penodi Cadeirydd y cyfarfod lle caiff y cynnig ei wneud;

2.20.2 Mewn perthynas â chywirdeb y cofnodion;

2.20.3 Newid trefn y busnes ar y rhaglen;

2.20.4 Cyfeirio rhywbeth at gorff neu unigolyn perthnasol;

2.20.5 Penodi pwyllgor neu Aelod yn sgil eitem yn yr hysbysiad o gyfarfod;

2.20.6 Derbyn adroddiadau neu fabwysiadu argymhellion pwyllgorau neu swyddogion ac unrhyw benderfyniad yn dilyn hynny;

2.20.7 Tynnu cynnig yn ôl;

2.20.8 Diwygio cynnig;

2.20.9 Symud ymlaen i'r busnes nesaf;

2.20.10 Bod penderfyniad yn cael ei wneud ar y cwestiwn;

2.20.11 Gohirio trafodaeth;

2.20.12 Gohirio cyfarfod;

2.20.13 Atal Rheol Gweithdrefn benodol;

2.20.14 Gwahardd y cyhoedd a'r wasg yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Hawl i Wybodaeth;

2.20.15 Peidio â chlywed ymhellach gan Aelod a enwyd dan Reol 4.27.2 neu eu heithrio o'r cyfarfod dan Reol 4.27.3;

2.20.16 Rhoi caniatâd y Cyngor ble ofynnir am hynny dan y Cyfansoddiad hwn.

## 4.21 Rheolau Trafodaeth

2.21.1 Dim Areithiau Nes bydd Cynnig yn cael ei Eilio

Ni chaniateir unrhyw araith ar ôl i'r cynigydd wneud cynnig ac egluro pwrpas y cynnig hyd nes bydd y cynnig yn cael ei eilio.

2.21.2 Hawl i Ofyn am Gynnig yn Ysgrifenedig

Oni bai y rhoddwyd hysbysiad am y cynnig yn barod, mae'n bosibl y bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Aelod ysgrifennu'r cynnig ar bapur a'i roi iddo cyn ei drafod.

2.21.3 Araith yr Eilydd

Wrth eilio cynnig neu newid, gall Aelod gadw eu haraith tan yn ddiweddarach yn y drafodaeth.

2.21.4 Cynnwys a Hyd Areithiau

Mae'n rhaid i areithiau fod yn berthnasol i'r cwestiwn sy'n cael ei drafod neu i eglurhad personol neu bwynt o drefn. Ni chaiff unrhyw araith fod yn fwy na 5 munud o hyd heb ganiatâd y Cadeirydd

2.21.5 Pryd gall Aelod Siarad Eto

Ni chaiff Aelod sydd wedi siarad ar gynnig siarad eto tra bod y cynnig yn destun trafodaeth, ac eithrio:

(a) i siarad unwaith am newid a gynigiwyd gan Aelod arall;

(b) i wneud diwygiad pellach os yw'r cynnig wedi'i ddiwygio ers iddo/iddi siarad;

(c) os oedd yr araith gyntaf ar ddiwygiad a gynigiwyd gan Aelod arall, i siarad ar y prif fater (p'un ai fod y diwygiad yr oedd yn siarad amdano wedi'i gymeradwyo ai peidio);

(d) i arfer ei hawl i ymateb;

(e) i nodi pwynt o drefn; a

(f) i ddarparu eglurhad.

2.21.6 Newidiadau i Gynigion

(a) Mae'n rhaid i newid i gynnig fod yn berthnasol i'r cynnig a bydd naill ai'n:

a) Cyfeirio'r mater i gorff neu unigolyn perthnasol i'w ystyried neu ei ailystyried;

b) Gadael geiriau allan;

c) Gadael geiriau allan a chynnwys neu ychwanegu rhai eraill; neu

d) Cynnwys neu ychwanegu geiriau

Ar yr amod nad yw effaith 4.21.6 (a)(ii) i 4.21.6 (a)(iv) yn negyddu'r cynnig.

(b) Dim ond un newid fydd yn cael ei gynnig a'i drafod ar unrhyw adeg. Ni chaiff unrhyw newid pellach ei gynnig nes y gwnaed penderfyniad ar y newid a drafodir. Gall y Cadeirydd ganiatáu trafod dau neu fwy o ddiwygiadau (ond nid i fod yn destun pleidlais) ar yr un pryd, os yw amgylchiadau'n awgrymu y byddai'r dull hwn yn hwyluso cynnal busnes y Cyngor yn briodol.

(c) Os nad yw newid yn cael ei gefnogi, gellir cynnig newidiadau eraill i'r cynnig gwreiddiol.

(d) Os yw newid yn cael ei gefnogi, mae'r cynnig fel y'i newidiwyd yn disodli'r cynnig gwreiddiol. Hwn wedyn yw'r prif gynnig lle gwneir unrhyw newidiadau pellach iddo.

(e) Ar ôl i newid gael ei gefnogi, bydd y Cadeirydd yn darllen y cynnig diwygiedig allan cyn derbyn unrhyw newid pellach, neu os nad oes un, yn ei roi i bleidlais.

2.21.7 Addasu Cynnig

(a) Gyda chaniatâd y cyfarfod, gall Aelod addasu cynnig sy'n destun rhybudd o gynnig ganddo. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei arwyddo heb drafodaeth.

(b) Gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd, gall Aelod addasu cynnig y mae wedi'i wneud heb rybudd o gynnig. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei arwyddo heb drafodaeth.

(c) Dim ond addasiadau a ellir eu gwneud fel diwygiadau a ellir eu gwneud.

2.21.8 Tynnu Cynnig yn Ôl

Gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd, gall Aelod dynnu cynnig y mae wedi'i wneud yn ôl. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei arwyddo heb drafodaeth. Ni chaiff unrhyw Aelod siarad ar y cynnig os yw'r cynigydd wedi gofyn am ganiatâd i dynnu'r cynnig yn ôl, oni wrthodwyd caniatâd.

2.21.9 Hawl i Ymateb

(a) Mae gan gynigydd yr hawl i ymateb ar ddiwedd y drafodaeth ar y cynnig cyn iddo fynd i bleidlais.

(b) Os bydd newid yn cael ei gynnig, mae gan y sawl a wnaeth y cynnig gwreiddiol yr hawl i ymateb ar ddiwedd y drafodaeth ar y newid, ond ni all siarad arno fel arall.

(c) Nid oes gan y sawl sy'n cynnig y newid yr hawl i ymateb i'r drafodaeth ar ei newid.

2.21.10 Cynigion y Gellir eu Gwneud yn Ystod Trafodaeth

Pan fydd cynnig yn cael ei drafod, ni chaiff unrhyw gynnig arall ei wneud ac eithrio cynigion ar gyfer:

(a) Tynnu cynnig yn ôl;

(a) Diwygio cynnig;

(b) Symud ymlaen i'r busnes nesaf;

(c) Bod penderfyniad yn cael ei wneud ar y cwestiwn;

(d) Gohirio trafodaeth;

(e) Gohirio cyfarfod;

(f) Gwahardd y cyhoedd a'r wasg yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Hawl i Wybodaeth;

(g) Peidio â chlywed ymhellach gan Aelod a enwyd dan Reol 4.27.2 neu eu heithrio o'r cyfarfod dan Reol 4.27.3.

2.21.11 Cynigion Cloi

(a) Gall Aelod wneud y cynigion canlynol, heb sylw ar ddiwedd araith Aelod arall:

a) Symud ymlaen i'r busnes nesaf;

b) Bod penderfyniad yn cael ei wneud ar y cwestiwn;

c) Gohirio trafodaeth;

d) Gohirio cyfarfod;

(b) Os bydd cynnig i symud i'r busnes nesaf yn cael ei eilio a bod y Cadeirydd yn meddwl bod yr eitem wedi'i thrafod yn ddigonol, bydd yn rhoi hawl i gynigydd y cynnig gwreiddiol ymateb am ddim mwy na 3 munud ac yna'n rhoi'r cynnig gweithdrefnol i bleidlais. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd y cynnig gwreiddiol yn darfod.

(c) Os bydd cynnig i wneud penderfyniad ar y cwestiwn yn cael ei eilio a bod y Cadeirydd yn meddwl bod yr eitem wedi'i thrafod yn ddigonol, bydd yn galw pleidlais ar y cynnig gweithdrefnol. Os bydd yn cael ei gymeradwyo bydd yn rhoi'r hawl i gynigydd y cynnig gwreiddiol ymateb am ddim mwy na 3 munud cyn rhoi'r cynnig i'r bleidlais.

(d) Os yw cynnig i ohirio'r drafodaeth neu i ohirio'r cyfarfod yn cael ei eilio a bod y Cadeirydd yn meddwl nad yw'r eitem wedi ei thrafod yn ddigonol ac na ellir ei thrafod yn rhesymol felly ar yr achlysur hwnnw, bydd yn rhoi'r cynnig gweithdrefnol i'r bleidlais heb roi hawl i gynigydd y cynnig gwreiddiol ymateb.

2.21.12 Pwynt o Drefn

Mae pwynt o drefn yn gais gan Aelod i'r Cadeirydd reoli ar afreoleidd-dra honedig yn nhrefn y cyfarfod. Gall Aelod godi pwynt o drefn ar unrhyw adeg. Bydd y Cadeirydd yn eu clywed ar unwaith. Bydd pwynt o drefn yn ymwneud ag achos honedig o dorri Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor neu'r gyfraith.

Mae’n rhaid i'r Aelod nodi'r rheol neu'r gyfraith a'r modd y mae’n credu ei bod wedi’i thorri. Bydd dyfarniad y Cadeirydd ar y mater yn derfynol.

2.21.13 Eglurhad Personol

Gall Aelod roi eglurhad personol ar unrhyw adeg. Mae’n rhaid i eglurhad personol ymwneud yn unig â rhyw ran berthnasol o araith gynharach gan yr Aelod a all ymddangos fel pe bai wedi’i chamddeall yn y drafodaeth bresennol. Bydd penderfyniad y Cadeirydd ynghylch derbynioldeb eglurhad personol yn derfynol.

## 4.22 Penderfyniadau Blaenorol a Chynigion

2.22.1 Cynnig i ddiddymu penderfyniad blaenorol

Ac eithrio yn dilyn adroddiad gan swyddog o’r Cyngor, y Cabinet neu bwyllgor, ni ellir gwneud cynnig neu newid i ddiddymu penderfyniad a wnaed mewn cyfarfod o'r Cyngor o fewn y chwe mis diwethaf oni bai bod rhybudd o gynnig wedi’i lofnodi gan o leiaf 20 Aelod.

2.22.2 Cynnig Tebyg i Un a Wrthodwyd yn Flaenorol

Ni ellir gwneud cynnig neu newid tebyg i un sydd wedi’i wrthod mewn cyfarfod o'r Cyngor o fewn y chwe mis diwethaf oni bai bod rhybudd o gynnig neu newid yn cael ei lofnodi gan o leiaf 20 Aelod. Unwaith mae cynnig neu newid wedi derbyn sylw, ni all unrhyw un wneud cynnig na newid tebyg am chwe mis.

4.22.3 Cynigion sy'n Effeithio ar Bobl a Gyflogir gan y Cyngor

Os bydd unrhyw fater yn codi mewn cyfarfod o'r Cyngor, y Cabinet, pwyllgor neu is-bwyllgor, ynghylch penodiad, dyrchafiad, diswyddiad, cyflog, budd-dal ymddeol, ymddygiad neu amodau gwasanaeth unrhyw berson a gyflogir gan y Cyngor, ni ddylai mater o'r fath fod yn destun trafodaeth nes y penderfynir a ddylid arfer y pŵer o wahardd y cyhoedd ai peidio dan delerau Rhan 1 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4.23 Pleidleisio

2.23.1 Mwyafrif

Oni bai bod y Cyfansoddiad hwn yn nodi fel arall, bydd unrhyw fater yn cael ei benderfynu gan fwyafrif syml o'r Aelodau hynny sy’n pleidleisio ac yn bresennol yn yr ystafell ar yr adeg y gofynnwyd y cwestiwn.

2.23.2 Pleidlais Fwrw’r Cadeirydd

Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd neu’r sawl sy’n llywyddu ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd unrhyw gyfyngiad ar sut mae'r Cadeirydd yn dewis arfer pleidlais fwrw.

2.23.3 Dull Pleidleisio

Oni bai y gelwir am bleidlais wedi’i chofnodi dan Reol 4.23.5 bydd y Cadeirydd yn cymryd y bleidlais drwy ddangos dwylo, neu drwy ddefnyddio system bleidleisio electronig y Cyngor os oes un, neu os nad oes unrhyw wrthwynebiad, drwy gadarnhad y cyfarfod.

2.23.4 Pleidlais Gudd

Bydd y bleidlais yn cael ei chynnal drwy bleidlais gudd os bydd y rhan fwyaf o’r Aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod yn mynnu hynny. Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi canlyniad rhifol y bleidlais cyn gynted ag y bydd y canlyniad yn hysbys.

2.23.5 Pleidlais wedi’i Chofnodi

Os bydd o leiaf chwarter yr Aelodau sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn y cyfarfod yn mynnu hynny, bydd yr enwau o blaid ac yn erbyn cynnig neu ddiwygiad neu sy'n ymatal rhag pleidleisio yn cael eu nodi'n ysgrifenedig a'u cofnodi yn y cofnodion. Bydd galwad am bleidlais gudd yn diystyru galwad am bleidlais wedi’i chofnodi. O ran pleidlais electronig wedi’i chofnodi, bydd y canlyniadau’n cael eu harddangos.

2.23.6 Hawl i Ofyn i Bleidlais Unigol gael ei Chofnodi

Lle bo unrhyw Aelod yn gofyn am hynny yn union ar ôl y bleidlais, bydd eu pleidlais yn cael ei chofnodi yn y cofnodion i ddangos a wnaethant bleidleisio o blaid neu yn erbyn cynnig, neu ymatal rhag pleidleisio.

2.23.7 Pleidleisio ar Benodiadau

(a) Os oes mwy na dau o bobl yn cael eu henwebu ar gyfer unrhyw swydd i'w llenwi ac nad oes mwyafrif clir o bleidleisiau o blaid un person, yna bydd enw'r person sydd â’r nifer lleiaf o bleidleisiau yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr ac fe gynhelir pleidlais newydd. Bydd y broses yn parhau hyd nes ceir mwyafrif ar gyfer un person.

(b) Os oes angen pleidlais ar gynnig i benodi unigolyn i swydd â thâl i’w llenwi gan y Cyngor, bydd y bleidlais yn un papur os oes mwy nag un ymgeisydd; os oes mwy dau ymgeisydd neu fwy bydd eu henwau yn cael eu cyflwyno i’r cyfarfod yn nhrefn yr wyddor yn ôl cyfenw. Bydd y rheiny sy’n cael pleidleisio yn pleidleisio dros un unigolyn yn unig. Os nad oes mwyafrif o blaid un person, bydd enw'r person sydd â'r nifer lleiaf o bleidleisiau yn cael ei ddileu o'r rhestr a bydd pleidlais newydd yn cael ei chynnal, ac yn y blaen nes y rhoddir mwyafrif o bleidleisiau o blaid un person. Mewn etholiadau lluosog bydd pleidleisiau a roddir ar gyfer llai o ymgeiswyr na nifer y swyddi gwag yn annilys.

**4.24 Cofnodion**

2.24.1 Llofnodi'r Cofnodion

Bydd y Cadeirydd yn cymeradwyo cofnodion y trafodion yn y cyfarfod priodol nesaf. Bydd y Cadeirydd yn cynnig cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir. Yr unig elfen o'r cofnodion a ellir eu trafod yw eu cywirdeb a dylai unrhyw gwestiwn ynghylch eu cywirdeb gael ei godi fel cynnig.

2.24.2 Dim Gofyniad i Lofnodi Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol mewn Cyfarfod Arbennig

Lle mewn perthynas ag unrhyw gyfarfod, mae'r cyfarfod nesaf ar gyfer llofnodi'r cofnodion yn gyfarfod a elwir dan baragraff 3 Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (cyfarfod arbennig), bydd y cyfarfod canlynol nesaf (cyfarfod heb ei alw dan y paragraff hwnnw) yn cael ei drin fel cyfarfod addas i bwrpas paragraff 41(1) a (2) Atodlen 12 sy'n ymwneud â llofnodi cofnodion.

2.24.3 Ffurf Cofnodion

Bydd y cofnodion yn cynnwys yr holl gynigion a diwygiadau yn y ffurf a'r drefn y rhoddodd y Cadeirydd hwy.

**4.25 Cofnod o Bresenoldeb**

4.25.1 Mae'n rhaid i bob Aelod sy'n bresennol mewn cyfarfod, am ba bynnag hyd y mae yn bresennol yn y cyfarfod, lofnodi taflen bresenoldeb cyn diwedd pob cyfarfod i gynorthwyo gyda'r cofnod presenoldeb. Bydd presenoldeb y rheiny sy'n mynychu o bell yn cael ei gofnodi gan swyddogion.

4.25.2 Dylai Aelodau ddatgan yn ffurfiol eu bod yn gadael cyfarfod yn barhaol cyn y diwedd.

**4.26 Gwahardd y Cyhoedd**

2.26.1 Gall aelodau o'r cyhoedd a'r wasg gael eu gwahardd naill ai yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Hawl i Wybodaeth yn Adran 15 y Cyfansoddiad hwn neu dan Reol 4.28 (Aflonyddwch gan y Cyhoedd).

**4.27 Ymddygiad Aelodau**

4.27.1 Y Cadeirydd yn Sefyll

Pan fydd y Cadeirydd yn siarad yn ystod trafodaeth, mae'n rhaid i unrhyw Aelod sy'n siarad stopio siarad ac eistedd i lawr. Mae'n rhaid i'r cyfarfod fod yn dawel.

4.27.2 Aelod i beidio â chael eu clywed ymhellach

Os bydd Aelod yn anwybyddu dyfarniad y Cadeirydd drwy ymddwyn yn amhriodol neu yn dramgwyddus neu'n rhwystro busnes yn fwriadol, gall y Cadeirydd gynnig nad yw'r Aelod yn cael ei glywed ymhellach. Os bydd yn cael ei eilio, bydd pleidlais ar y cynnig heb drafodaeth.

4.27.3 Aelod i Adael y Cyfarfod

Os yw'r Aelod yn parhau i ymddwyn yn amhriodol ar ôl derbyn cynnig o'r fath, gall y Cadeirydd gynnig bod yr Aelod yn gadael y cyfarfod neu fod y cyfarfod yn cael ei ohirio am gyfnod penodol. Os bydd y cynnig hwn yn cael ei eilio, bydd pleidlais ar y cynnig heb drafodaeth.

4.27.4 Aflonyddwch Cyffredinol

Os bydd aflonyddwch cyffredinol yn gwneud busnes trefnus yn amhosibl, gall y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod fel y bo'r angen.

**4.28 Aflonyddwch gan y Cyhoedd**

4.28.1 Gwahardd Aelod o'r Cyhoedd

Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn rhybuddio'r sawl dan sylw. Os yw'n parhau i dorri ar draws, bydd y Cadeirydd yn gofyn iddynt adael yr ystafell neu'r llwyfan ar-lein os ydynt yn bresennol o bell mewn lleoliad arall.

4.28.2 Clirio rhan o'r ystafell gyfarfod

Os oes aflonyddwch cyffredinol mewn unrhyw ran o'r ystafell gyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, gall y Cadeirydd fynnu bod y rhan honno yn cael ei chlirio.

4.28.3 Clirio Llwyfan Ar-lein

Os oes aflonyddwch cyffredinol ar y llwyfan ar-lein, gall y Cadeirydd ofyn i'r llwyfan ar-lein gael ei stopio, ei ddistewi neu ei gau.

4.28.4 Pwerau Ychwanegol

Mae'r pwerau dan y rheol hon yn ychwanegol at unrhyw bŵer arall y gall y sawl sy'n llywyddu eu harfer yn gyfreithlon.

**4.29 Recordiad Sain/Fideo neu Ddarllediad / Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol**

Ni chaniateir unrhyw un ac eithrio'r Cyngor i wneud recordiad fideo neu recordiad sain neu ddarllediad o gyfarfod y Cyngor a'i bwyllgorau.

**4.30 Darllediad Electronig Cyfarfodydd**

Bydd cyfarfodydd cyffredin y Cyngor yn cael eu darlledu'n fyw yn electronig ar wefan y Cyngor er mwyn i aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfod allu gweld a chlywed y trafodaethau. Bydd copïau o'r cyfarfod ar gael am chwe mis ar ôl y cyfarfod.

**4.31 Atal a Diwygio Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor**

4.31.1 Atal

Gall holl Reolau Gweithdrefnau'r Cyngor ac eithrio Rheol 16, 4.23.6, 4.23.7 a 22 a'r egwyddorion gwneud penderfyniadau yn Rhan 14, gael eu hatal dros dro gan gynnig gyda rhybudd neu heb rybudd os oes o leiaf hanner cyfanswm yr holl Aelodau yn bresennol. Bydd yr ataliad dros dro am gyfnod y cyfarfod yn unig.

4.31.2 Diwygiadau

Bydd unrhyw gynnig i ychwanegu at, amrywio neu ddiddymu Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor a fydd, pan gaiff ei gynnig a'i eilio, yn cael ei ohirio heb drafodaeth i gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

**4.32 Cais i Bwyllgorau ac Is-Bwyllgorau**

Mae holl Reolau Gweithdrefnau'r Cyngor yn berthnasol i gyfarfodydd y Cyngor Llawn. Nid yw'r rheolau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd y Cabinet. Dim ond Rheolau 4.13 i 4.18, 4.20 i 4.34 (ac eithrio Rheol 4.27.1) sy'n berthnasol i gyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau.

**4.33 Disodli Aelodau Pwyllgorau**

Dan ofynion cydbwysedd gwleidyddol mae pob grŵp gwleidyddol yn cael nifer penodol o seddi ar bob pwyllgor, ac mae'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol. Os yw Arweinydd Grŵp yn dymuno newid Aelod o'u plaid ar unrhyw bwyllgor bydd arno angen darparu rhybudd ysgrifenedig i'r Adain Bwyllgorau 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod dan sylw.

**4.34 Y Gymraeg**

4.34.1 Bydd gan y Gymraeg a'r Saesneg yr un statws a dilysrwydd ymhob gweithgarwch y Cyngor.

4.34.2 Bydd gan bob unigolyn yr hawl i siarad Cymraeg neu Saesneg wrth annerch y Cyngor

**4.35 Materion Brys**

4.35.1 Dylid llenwi a chyflwyno'r ffurflen briodol i'r unigolyn sy'n llywyddu'r cyfarfod, er mwyn ystyried unrhyw fater brys.

4.35.2 Os yw'r unigolyn sy'n llywyddu cyfarfod pwyllgor neu is-bwyllgor, fel y bo'n briodol, yn caniatáu trafod eitem fusnes heb ei chynnwys ar y rhaglen, oherwydd ei natur frys, dylai ddatgan hynny ar ddechrau'r cyfarfod a dylid cyflwyno'r eitem yn unol â chyfarwyddyd yr unigolyn sy'n llywyddu.